# Y daith ddwyieithiog gyda Dechrau'n Deg

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Dechrau'n Deg
Flying Start



## Gofal Plant

Wyddost ti fod pob plentyn 2 oed+ sy'n gymwys yn gallu cael mynediad i ofal plant Dechrau'n Deg (12.5 awr yr wythnos o ofal am ddim) drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Cylch Meithrin?

## Mae gennyt ti ddewis

Gofynna am ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg wrth ddewis gofal plant i dy blentyn.

## Ymgeisio am le Meithrin neu Dderbyn mewn Ysgol i blentyn hŷn

Beth am ystyried dewis addysg Gymraeg wrth ymgeisio am le Meithrin neu Derbyn mewn ysgol? Mae mwy o wybodaeth ar wefan dy Awdurdod Lleol neu cysyllta gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

**Gofal Plant:**
Beth yw Dechrau'n Deg l Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Derbyn i Gyn Feithrin a Meithrin Ysgolion:**
Derbyniadau cyn meithrin ac i'r ysgol feithrin l Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Oes rhaid i mi fod yn siarad Cymraeg yn y cartref?

Nac oes, mae 76% o blant mewn Cylchoedd Meithrin yn dod o gartrefi sydd heb Gymraeg fel prif iaith y cartref. Os wyt ti eisiau ymarfer dy Gymraeg mae gwersi am ddim ar gael trwy **Clwb Cwtsh**. Mae llwyth o gefnogaeth arall ar gael i chi fel teulu gan Mudiad Meithrin:



## Cymraeg i Blant 0 – 1 oed

Mae grwpiau Cymraeg i Blant yn cynnig cefnogaeth i ti a dy blentyn i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae swyddogion Cymraeg i Blant ar draws Cymru yn cynnig grwpiau hwyliog, rhad ac am ddim drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys sesiynau tylino babi, ioga babi ac arwyddo, stori a chân.

## Cylch Ti a Fi 0 – 4 oed

Yn y Cylch Ti a Fi fe gei di a dy blentyn gyfle i chwarae, cymdeithasu a rhannu profiadau gyda theuluoedd eraill, gyda chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Cylch Meithrin neu feithrinfa Gymraeg 0 – 4 oed

Yn y Cylch Meithrin / Feithrinfa caiff dy blentyn gyfle i gymdeithasu gyda phlant eraill a dysgu trwy chwarae dan arweiniad staff proffesiynol a chymwys, wrth gael eu trochi yn y Gymraeg.

Dechrau'n Deg
Flying Start

**Am fwy o wybodaeth cer draw i wefan**

**Mudiad Meithrin**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government